**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Rebecca Evans AC
Trefnydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf: PO783/EJ/SB

17 Rhagfyr 2019

Annwyl Rebecca,

**Yngh: Cyfnod 4 Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr yn gofyn am ganiatâd i symud trafodion Cyfnod 4 ar y Bil Indemniadau yn syth ar ôl cwblhau Cyfnod 3.

Rwyf wedi ystyried eich cais ac yn cytuno, y tro hwn ac am y rhesymau rydych chi'n eu hamlinellu yn eich llythyr, bod hyn yn ffordd resymol o weithredu. Felly, rwy'n fodlon rhoi fy nghydsyniad i chi.

Croesawaf eich awgrym y byddwch yn cynnwys manylion o'ch bwriad ar y Datganiad Busnes erbyn 7 Ionawr fan bellaf. Bydd y Swyddfa Gyflwyno mewn cysylltiad â'ch swyddogion yn agosach at yr amser ynglŷn â'r cynnig.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403